# Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP)
# Cyfarfod 5 – 19 Medi 2017

Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd

## Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Darren Williams – FUW
Nick Fenwick – FUW
John Davies – NFU
Dylan Morgan – NFU
Bronwen Gardner – NFU
Dylan Morgan – NFU
Lucy Ralph – NFU
Ivan Monckton – UNITE
Bryan Godsell – UNITE

Bridget Henderson – UNITE

Helen Snow – Geldards
Kim Howell – Geldards

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Helena Bird – Llywodraeth Cymru
Gary Haggaty – Llywodraeth Cymru
Lorri Browning – Llywodraeth Cymru

## Ymddiheuriadau

Steve Hughson – Aelod Annibynnol

**Eitem 1 – Croeso, Tynnu Lluniau, Gwrthdaro Buddiannau**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, a thynnwyd lluniau o'r Panel i'w defnyddio mewn cyhoeddiadau. Nodwyd un absenoldeb.

**Eitem 2 – Trosolwg cryno o weithdrefnau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**
Ailddatganwyd y broses o wneud deddfwriaeth yn Llywodraeth Cymru. Cylch gwaith y Panel yw cynnig Gorchmynion i'w hystyried gan Weinidogion Cymru. Byddent yna yn eu cyflwyno i'r Cynulliad gael craffu arnynt ac yna bydd y Gorchmynion naill ai'n cael eu gwneud neu eu cyfeirio yn ôl i'r Panel i'w hegluro fel y bo angen. Mae'n bwysig cofnodi sail resymegol pob penderfyniad / argymhelliad sy'n cael ei wneud gan y Panel.

**Eitem 3 – Cyflwyno'n ôl-weithredol y codiadau cyflog yng Ngorchymyn arfaethedig 2017.**
Nododd Undeb UNITE fod angen cyflwyno'r Gorchymyn yn ôl-weithredol. Roedd yr Undeb wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn mynegi ei bryder ynghylch y ffaith nad oedd gweithwyr wedi cael unrhyw godiad cyflog ar 1 Ebrill fel y bwriadwyd. Roedd UNITE yn gadarn y dylid ôl-ddyddio Gorchymyn arfaethedig 2017 fel y byddai'r cyfraddau cynyddol yn cael eu talu i weithwyr amaethyddol o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

Cytunodd NFU a FUW y dylid gweithredu'r Gorchymyn ar 1 Ebrill 2017. Fodd bynnag, er mwyn medru cynllunio'n ariannol, nid oeddent am i'r adolwg hwn fod yn benagored oherwydd byddai hynny'n ei gwneud yn anodd i gyflogwyr gynllunio eu harian o ran talu eu gweithwyr. Awgrymwyd y gellid gosod terfyn amser. Nodwyd hefyd y byddai darpariaeth yn y Gorchymyn ar gyfer cyflog gwyliau, a darpariaethau eraill, hefyd yn effeithio ar swm yr ôl-daliadau sydd eu hangen, a gallai pobl fod yn gymwys i fwy o gyflog gwyliau na'r swm a roddir.

Derbyniwyd yr egwyddor o gyflwyno'r Gorchymyn yn ôl-weithredol. Roedd pawb am ei gyflwyno cyn gynted â phosibl. Cytunodd y Panel adael y mater o gyfyngu ar y cyfnod y gellid hawlio ôl-daliadau tan y cyfarfod nesaf os nad oedd y Gorchymyn wedi'i wneud erbyn hynny. Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet unol â hynny.

**Eitem 4 – Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod 4 (11 Mai 2017)**
Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cytunodd y Panel fod angen i'r canllawiau fod yn gliriach pan fo hyfforddeion yn cael eu cyflogi neu'n cymryd rhan mewn addysg. Nodwyd bod Prentisiaeth yn gyflogaeth ond nad yw hynny'n glir mewn achosion eraill gan fod pobl ar leoliadau ar lefelau addysgol gwahanol, yn aml o dan y lefel Brentisiaeth sy'n cael ei chydnabod yn ffurfiol. Roedd rhai yn gweithio ar ffermydd yn y cyfnod rhwng gadael yr ysgol a dechrau yn y coleg.

**Eitem 5 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd**
Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Panel bod ychydig o ymchwil yn cael ei wneud ar gasglu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur o fewn y sector i lywio gwaith y Panel. Cadarnhawyd anghenion y Panel cyn y byddai modd ymrwymo'r arian yn llawn. Bydd canfyddiadau'r gwaith yn cael eu rhannu'n eang.

Mae Rhaglen Cyswllt Ffermio yn ystyried gwella datblygiad proffesiynol parhaus a bydd y Panel yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Byddai enghreifftiau o sut y mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei ddefnyddio mewn gwledydd eraill ac mewn diwydiannau eraill yn cael eu casglu er gwybodaeth i'r Panel.

**Eitem 6 – Moderneiddio / Adolygu'r Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol**
Nododd y Panel ei fwriad i ganolbwyntio ar adolygiad trwyadl o'r Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol a chytunwyd y dylai un o'r is-grwpiau ganolbwyntio ar hynny.

Mynegodd UNITE y dylai fod un ystyriaeth oedran yn unig yn y Gorchymyn Isafswm Cyflogau Amaethyddol – rhaniad dros 18 / dan 18 – gan y byddai'n denu mwy o weithwyr sydd eu hangen i'r diwydiant. Dylai prentisiaethau barhau i gael eu trin ar wahân a byddai

nifer y cyfraddau yn parhau'r un fath. Cytunwyd y dylai'r mater hwn gael ei ystyried yn llawn gan y Panel wrth adolygu strwythur y Gorchmynion Cyflogau.

**Eitem 7 – Cyflwyno Papurau Cyflogwyr (Undebau Ffermio) a Gweithwyr (UNITE)**
Cyflwynwyd dau bapur cyn y cyfarfod. Un ar y cyd gan NFU a FUW ac un gan UNITE.

Roedd y ddau wedi cyflwyno eu papurau o ran eu safbwyntiau ynghylch unrhyw godiadau mewn Cyflogau Amaethyddol o 1 Ebrill 2018. Cytunwyd bod y ddau'n gyflwyniadau ardderchog a byddant yn cael eu trafod ymhellach.

**Eitem 8 – Trafod Gorchymyn arfaethedig 2018**
Trafododd y Panel y codiadau posibl o ran cyfraddau'r isafswm cyflog ar gyfer y Gorchymyn nesaf. Ar ôl trafod, cytunwyd y byddai'r Panel yn cynnig y cyfraddau a ganlyn ar gyfer gweithwyr amaethyddol:-

| **Gradd** | **Cyfradd yr Isafswm Cyflog Arfaethedig** | **Cynnydd** |
|---|---|---|
| Gradd 1 <16 | £3.47 | |
| Gradd 1 16 – 24 | £7.34 | |
| Gradd 2 | £8.29 | 9.9% |
| Gradd 3 | £8.54 | 3.9% |
| Gradd 4 | £9.16 | 3.9% |
| Gradd 5 | £9.78 | 3.9% |
| Gradd 6 | £10.48 | 3.9% |

| | | |
|---|---|---|
| Prentis Blwyddyn 1 | £3.93 | 3.9% |
| Bl 2 (16 – 17) | £4.21 | 3.9% |
| Prentis Bl 2 (18 – 20) | £5.82 | 3.9% |
| Prentis Bl 2 (21 – 24) | £7.35 | 4.2% |
| Prentis (25+) | £8.05 | 7.33% |

| | |
|---|---|
| Lwfansau Eraill | 3.9% |
| Lwfans Cŵn | £8.02 |
| Lwfans Nos | £1.52 |
| Grant Geni / Mabwysiadu | £63.09 |

**Eitem 9 – Camau Nesaf**
Byddai'r Panel yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ganlyniad cynigion y Panel ar gyfer y gorchymyn nesaf yn ystod mis Hydref. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.